

CYNGOR SIR FYNWY

Pwyllgor Cynllunio
Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA
Dydd Mawrth, 14eg Ionawr, 2025, 2.00 pm

CYNGHORWYR Cynghorydd Sirol Phil Murphy (Cadeirydd)
YN
BRESENNOL: Cynghorydd Sirol Dale Rooke (Is-Gadeirydd)

Cynghorydd Sirol: Fay Bromfield, Emma Bryn, Jan Butler,
John Crook, Tony Easson, Steven Garratt, Meirion Howells,
Su McConnel, Jayne McKenna, Maureen Powell, Sue Riley,
Ann Webb, Laura Wright

Cynghorydd Sirol Louise Brown, Tony Kear

SWYDDOGION YN BRESENNOL:

Amy Longford	Rheolwr Treftadaeth
Andrew Jones	Development Management Area Team Manager
Joanne Chase	Cyfreithiwr a Phennaeth Cyfraith Fasnachol
Richard Ray	Paralegal
Richard Williams	Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

YMDDIHEURIADAU:

Cynghorydd Sirol Jill Bond

1. Datganiadau o Fuddiant

Datganodd y Cynghorydd Sir Laura Wright fuddiant personol a rhagfarnus yn unol â Chod Ymddygiad yr Aelodau mewn perthynas â chais DM/2022/01525, gan fod ganddi berthynas sydd eisoes yn bodoli gydag un o wrthwynebwyr a threfnwr y ddeiseb, Jay Shipley. Jay Shipley yw Dirprwy Brif Swyddog Cyngor Tref y Fenni. Mae'r Cynghorydd Sir Wright hefyd yn Gynghorydd Tref, ac mae hi wedi trafod y cais hwn yn anffurfiol gyda Jay Shipley cyn ymuno â Phwyllgor Cynllunio Cyngor Sir Fynwy. Cytunodd y Cynghorydd Sir Wright i ddarllen datganiad i'r Pwyllgor Cynllunio ar ran Jay Shipley, yn lle aelod y ward. Yna gadawodd y cyfarfod ac ni chymerodd unrhyw ran yn y drafodaeth na'r bleidlais.

<https://youtu.be/ZpeG2A-ofSM?si=B5WpJ6sUziAWkyvU&t=53>

2. Cadarnhau cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cadarnhawyd a llofnodwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio dyddiedig 3^{fed} o Fedi 2024 gan y Cadeirydd.

<https://youtu.be/ZpeG2A-ofSM?si=rwq7Z4GlriS2WnXZ&t=93>

CYNGOR SIR FYNWY

Pwyllgor Cynllunio
Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA
Dydd Mawrth, 14eg Ionawr, 2025, 2.00 pm

3. Cais DM/2023/01341 - Adeiladu Anedd Newydd. 33 Stryd Maryport, Brynbuga, NP15 1AE

Ystyriom adroddiad y cais a gohebiaeth hwyr yr argymhellwyd eu bod yn cael eu cymeradwyo yn ddarostyngedig i'r amodau a amlinellir yn yr adroddiad ac yn ddarostyngedig i Gytundeb Adran 106.

Nodwyd mai'r ddogfen Asesu Canlyniad Llifogydd, 33 Maryport Street, Brynbuga, Sir Fynwy, NP15 1AE, Cyfeirnod Adroddiad 199824-F01, a baratowyd gan Ashfield Solutions Group, dyddiedig 04/07/2024 a fyddai'n cael ei chynnwys yn y rhestr o gynlluniau cymeradwy ac nid y ddogfen a baratowyd gan JBA dyddiedig 25/08/2020 fel y nodir yn adroddiad y pwyllgor. Byddai Amod 5 yn cael ei ddiweddarau yn unol â hynny.

<https://youtu.be/ZpeG2A-ofSM?si=si5B5A2r9gGIIIpO&t=154>

Wrth nodi manylion y cais a'r safbwyntiau a fynegwyd, cynigiwyd gan y Cynghorydd Sir Jan Butler ac eiliwyd gan y Cynghorydd Sir Laura Wright y dylid cymeradwyo cais DM/2023/01341 yn ddarostyngedig i'r amodau a amlinellir yn yr adroddiad ac yn ddarostyngedig i Gytundeb Adran 106.

Bydd y ddogfen Asesu Canlyniad Llifogydd, 33 Maryport Street, Brynbuga, Sir Fynwy, NP15 1AE, Cyfeirnod Adroddiad 199824-F01, a baratowyd gan Ashfield Solutions Group, dyddiedig 04/07/2024 yn cael ei chynnwys yn y rhestr o gynlluniau cymeradwy ac nid y ddogfen a baratowyd gan JBA dyddiedig 25/08/2020 fel y nodir yn adroddiad y pwyllgor. Amod 5 i'w ddiweddarau yn unol â hynny.

Ymatalodd y Cynghorydd Sir Tony Easson rhag pleidleisio mewn cysylltiad â'r cais hwn gan ei fod wedi gadael y cyfarfod am gyfnod byr yn ystod y drafodaeth cyn ailymuno â'r cyfarfod.

Ar ôl cael ei roi i bleidlais, cofnodwyd y pleidleisiau canlynol:

O blaid cymeradwyo	-	12
Yn erbyn cymeradwyo	-	2
Ymatal	-	0

Cymeradwywyd y cynnig.

Penderfynwyd cymeradwyo cais DM/2023/01341 yn ddarostyngedig i'r amodau a amlinellir yn yr adroddiad ac yn ddarostyngedig i gytundeb Adran 106.

Bydd y ddogfen Asesu Canlyniad Llifogydd, 33 Maryport Street, Brynbuga, Sir Fynwy, NP15 1AE, Cyfeirnod Adroddiad 199824-F01, a baratowyd gan Ashfield Solutions Group, dyddiedig 04/07/2024 yn cael ei chynnwys yn y rhestr o gynlluniau cymeradwy ac nid y ddogfen a baratowyd gan JBA dyddiedig 25/08/2020 fel y nodir yn adroddiad y pwyllgor. Amod 5 i'w ddiweddarau yn unol â hynny.

CYNGOR SIR FYNWY

Pwyllgor Cynllunio
Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA
Dydd Mawrth, 14eg Ionawr, 2025, 2.00 pm

4. Cais DM/2022/01525 - Adeiladu byngalo arfaethedig gyda pharcio ar dir y tu ôl i 11 Park Close. Tir y tu ôl i 11 Park Close, Y Fenni, NP7 5SU

Ystyriom adroddiad y cais a gohebiaeth hwyr yr argymhellwyd eu bod yn cael eu cymeradwyo yn ddarostyngedig i'r amodau a amlinellir yn yr adroddiad ac yn ddarostyngedig i Gytundeb Adran 106. Yn ogystal, bod yr amodau ychwanegol canlynol yn cael eu hatodi:

- Ni fydd unrhyw ddatblygiad yn digwydd nes bod cynllun ar gyfer gwella bioamrywiaeth, gan gynnwys amserlen ar gyfer gweithredu, wedi'i gyflwyno'n ysgrifenedig i'r awdurdod cynllunio lleol a'i fod wedi'i gymeradwyo ganddynt. Bydd y datblygiad yn cael ei wneud yn unol â'r manylion sy'n cael eu cymeradwyo.
- Er gwaethaf darpariaethau Erthygl 3, Atodlen 2, Rhan 1 Dosbarthiadau B & C o Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) (Diwygio) (Cymru) 2013 (neu unrhyw Orchymyn sy'n dirymu ac ailddeddfu'r Gorchymyn hwnnw gydag addasiad neu heb addasiad) ni chaniateir ychwanegu at, newid nac ehangu'r to.

<https://youtu.be/ZpeG2A-ofSM?si=48GzQwgl1IEDPFwc&t=3214>

Wrth nodi manylion y cais a'r safbwyntiau a fynegwyd, cynigiwyd gan y Cynghorydd Sir Su McConnel ac eiliwyd gan y Cynghorydd Sir Jan Butler y dylid cymeradwyo cais DM/2022/01525 yn ddarostyngedig i'r amodau a amlinellir yn yr adroddiad ac yn ddarostyngedig i Gytundeb Adran 106. Hefyd, bod yr amodau ychwanegol canlynol yn cael eu hatodi:

- Ni fydd unrhyw ddatblygiad yn digwydd nes bod cynllun ar gyfer gwella bioamrywiaeth, gan gynnwys amserlen ar gyfer gweithredu, wedi'i gyflwyno'n ysgrifenedig i'r awdurdod cynllunio lleol a'i fod wedi'i gymeradwyo ganddynt. Bydd y datblygiad yn cael ei wneud yn unol â'r manylion sy'n cael eu cymeradwyo.
- Er gwaethaf darpariaethau Erthygl 3, Atodlen 2, Rhan 1 Dosbarthiadau B & C o Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) (Diwygio) (Cymru) 2013 (neu unrhyw Orchymyn sy'n dirymu ac ailddeddfu'r Gorchymyn hwnnw gydag addasiad neu heb addasiad) ni chaniateir ychwanegiad, newid nac ehangu i'r to.

Ymatalodd y Cynghorydd Sir Jayne McKenna rhag pleidleisio mewn cysylltiad â'r cais hwn gan ei bod wedi gadael y cyfarfod am gyfnod byr yn ystod y drafodaeth cyn ailymuno â'r cyfarfod.

Cynhaliwyd pleidlais electronig. Fodd bynnag, oherwydd pa mor agos oedd y bleidlais - roedd y canlyniad o fewn dwy bleidlais neu lai, cafodd paragraff 27.27.6 o Gyfansoddiad Cyngor Sir Fynwy ei alw i rym:

CYNGOR SIR FYNWY

Pwyllgor Cynllunio
Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA
Dydd Mawrth, 14eg Ionawr, 2025, 2.00 pm

Pan fydd y canlyniad yn 2 neu lai o bleidleisiau neu pan fydd angen i'r Cadeirydd ystyried bwrw pleidlais sy'n penderfynu, cynhelir cofrestr yn yr un arddull â phleidlais a gofnodwyd er mwyn sicrhau bod y canlyniad y tu hwnt i amheuaeth. Bydd nifer y pleidleisiau ar gyfer pob opsiwn yn cael eu nodi yn y cofnodion.

Ar ôl cael ei roi i bleidlais, cofnodwyd y pleidleisiau canlynol:

O blaid cymeradwyo	-	6
Yn erbyn cymeradwyo	-	7
Ymatal	-	0

Ni chymeradwywyd y cynnig.

Bu i ni benderfynu ein bod yn bwriadu gwrthod cais DM/2022/01525 ar sail diogelwch priffyrdd o ystyried lled y dreif a rennir. Felly, bydd y cais yn cael ei ailgyflwyno i gyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio yn y dyfodol gyda rhesymau priodol dros ei wrthod.

5. Cais DM/2024/00985 - Anedd newydd. Bushes Farm, Heol y Capel, Earlswood, Drenewydd Gelli-farch

Ystyriom adroddiad y cais a gohebiaeth hwyr a argymhellwyd i'w gymeradwyo yn ddarostyngedig i'r amodau a amlinellwyd yn yr adroddiad.

Roedd y cais hwn wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor Cynllunio ar 5ed Tachwedd 2024. Fodd bynnag, oherwydd afreoleidd-dra gweithdrefnol yn y cyfarfod dan sylw, roedd y cais wedi cael ei ailgyflwyno i'r Pwyllgor Cynllunio i'w ystyried ar y 3ydd Rhagfyr 2024. Penderfynodd yr Aelodau gymeradwyo'r cais yn groes i argymhelliad y swyddog.

Yn unol â'r protocol sydd wedi'i fabwysiadu, mae'r cais bellach yn cael ei ailgyflwyno gydag amodau i'w cytuno gan yr Aelodau.

<https://youtu.be/ZpeG2A-ofSM?si=1-EanYsaaZbf4fqN&t=6016>

Wrth nodi manylion y cais a'r safbwyntiau a fynegwyd, cynigiwyd gan y Cynghorydd Sir Tony Easson ac eiliwyd gan y Cynghorydd Sir Meirion Howells bod cais DM/2024/00985 yn cael ei gymeradwyo yn ddarostyngedig i'r amodau a amlinellir yn yr adroddiad.

Ar ôl cael ei roi i bleidlais, cofnodwyd y pleidleisiau canlynol:

O blaid cymeradwyo	-	13
Yn erbyn cymeradwyo	-	1
Ymatal	-	0

Cymeradwywyd y cynnig.

Penderfynom gymeradwyo cais DM/2024/00985 yn ddarostyngedig i'r amodau a amlinellir yn yr adroddiad.

CYNGOR SIR FYNWY

Pwyllgor Cynllunio
Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA
Dydd Mawrth, 14eg Ionawr, 2025, 2.00 pm

6. Cais DM/2024/00442 - Adeiladu dwy annedd newydd y tu ôl i Ardwyn, gyda'r holl waith cysylltiedig. Ardwyn, Heol Gwent, Mardy, Y Fenni, NP7 6NL

Ystyriom adroddiad y cais a gohebiaeth hwyr yr argymhellwyd eu bod yn cael eu cymeradwyo yn ddarostyngedig i'r amodau a amlinellir yn yr adroddiad ac yn ddarostyngedig i Gytundeb Adran 106.

https://youtu.be/ZpeG2A-ofSM?si=Kr6kZKn5y7cR4_vK&t=7052

Wrth nodi manylion y cais a'r safbwyntiau a fynegwyd, cynigiwyd gan y Cynghorydd Jan Butler ac eiliwyd gan y Cynghorydd Sir Maureen Powell y dylid cymeradwyo cais DM/2024/00442 yn ddarostyngedig i'r amodau a amlinellir yn yr adroddiad ac yn ddarostyngedig i Gytundeb Adran 106. Hefyd, bod amod ychwanegol yn cael ei atodi er mwyn rheoli goleuadau lefel isel ar y safle.

Ar ôl cael ei roi i bleidlais, cofnodwyd y pleidleisiau canlynol:

O blaid cymeradwyo	-	14
Yn erbyn cymeradwyo	-	0
Ymatal	-	0

Cymeradwywyd y cynnig.

Penderfynwyd gymeradwyo cais DM/2024/00442 yn ddarostyngedig i'r amodau a amlinellir yn yr adroddiad ac yn ddarostyngedig i gytundeb cyfreithiol Adran 106. Hefyd, bod amod ychwanegol yn cael ei atodi er mwyn rheoli goleuadau lefel isel ar y safle.

7. Cais DM/2024/01199 - Newid defnydd o drefnwyr angladdau ar y llawr gwaelod a'r llawr cyntaf i fod yn dŷ amlfeddiannaeth 6 ystafell wely, 6 person (Defnydd C4). 90 Heol Casnewydd, Cil-y-coed, Sir Fynwy

Ystyriom adroddiad y cais a gohebiaeth hwyr a argymhellwyd i'w gymeradwyo yn ddarostyngedig i'r amodau a amlinellwyd yn yr adroddiad.

<https://youtu.be/ZpeG2A-ofSM?si=sqYcaUGxbVfWZvBk&t=8036>

Wrth nodi manylion y cais a'r safbwyntiau a fynegwyd, cynigiwyd gan y Cynghorydd Sir Su McConnel ac eiliwyd gan y Cynghorydd Sir Maureen Powell bod cais DM/2024/01199 yn cael ei gymeradwyo yn ddarostyngedig i'r amodau a amlinellir yn yr adroddiad.

Ar ôl cael ei roi i bleidlais, cofnodwyd y pleidleisiau canlynol:

O blaid cymeradwyo	-	12
Yn erbyn cymeradwyo	-	2
Ymatal	-	0

Cymeradwywyd y cynnig.

CYNGOR SIR FYNWY

**Pwyllgor Cynllunio
Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA
Dydd Mawrth, 14eg Ionawr, 2025, 2.00 pm**

Penderfynom gymeradwyo cais DM/2024/01199 yn ddarostyngedig i'r amodau a
amlinellir yn yr adroddiad.